

Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 15 Hydref 2014
Ystafell Fwrdd, Trefforest, Prifysgol De Cymru

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Heledd Bebb, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones (tan 3.40), Gwilym Dyfri Jones, Delyth Murphy, Dr Eleri Pryse (tan 3.40), Gwerfyl Roberts (tan 2.45), Yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Sefydliad): Dr Jeremy Evas, Dr Gwenno Ffrancon, Dr Anwen Jones (tan 3.40), Llŷr Roberts, Dr Siân Wyn Siencyn
- Aelodau (Myfyrwyr): Jacob Ellis, Gwyndaf Lewis, Rhodri Organ, Matthew Rees
- Aelodau (Colegau Cymru): Claire Roberts, Linda Wyn
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)
- Ymddiheuriadau: Julie Brake, Gwion Dafydd, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Gwenno Gibbard, Rhiannon Hincks, Aled Illtud, Dr Lisa Lewis, Yr Athro Densil Morgan, Huw Morris (ex-officio), Dr Angharad Naylor, Yr Athro Gwynedd Parry, Llinos Roberts, Dr Gwennan Schiavone, Carys Swain, Dr Enlli Thomas

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</p>	<p>1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon.</p> <p>1.2. Diolchwyd i Brifysgol De Cymru am letya'r cyfarfod ac i Gwawr Jones am hwyluso manylion y dydd.</p> <p>1.3. Croesawyd Dr Jeremy Evas, Prifysgol Caerdydd (ar ran Dr Angharad Naylor); Claire Roberts o Golegau Cymru (ar ran Carys Swain); a Llŷr Roberts, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, aelod sefydliadol newydd yn lle Dr Gina Morgan. Diolchwyd i Dr Morgan am ei chyfraniad ar hyd ei thymor gwasanaeth.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>1.4. Croesawyd Gwyndaf Lewis, Rhodri Organ a Matthew Rees, cynrychiolwyr myfyrwyr 2014/15, i'w cyfarfod swyddogol cyntaf, a Jacob Ellis fel aelod llawn o'r Bwrdd Academaidd yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Iaith Gymraeg UCMC.</p> <p>1.5. Nodwyd llongyfarchiadau i Dr Siân Wyn Siencyn ar ei phenodiad fel Deon y Gyfadran Addysg a Chymunedau, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant; Gwilym Dyfri Jones ar ei benodiad fel Dirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant; yr Athro Carwyn Jones ar ei benodiad i Gadair ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd; Dr Angharad Naylor ar enedigaeth ei mab; a Gwawr Jones ar ei phenodiad fel Pennaeth yr Uned Gymraeg a Swyddog Iaith, Prifysgol De Cymru. Nodwyd ymhellach mai Dr Dai Williams yw Swyddog Cangen newydd Prifysgol De Cymru.</p> <p>1.6. Cafwyd diweddariad ar werthusiad y Coleg gan Dateb/Oldbell3, ar ran y Cyngor Cyllido, gan y Prif Weithredwr. Eglurwyd y derbyniwyd yr adroddiad drafft ar 1 Medi 2014 ac y byddai'r Cyfarwyddwyr yn cwrdd yng Ngregynog ar 21 a 22 Hydref 2014 i drafod yr argymhellion.</p> <p>1.7. Derbyniwyd adroddiad yn ogystal ar gyflwyniad a roddwyd gan y Coleg i Banel Adolygiad Diamond ar 10 Hydref 2014. Adroddwyd y byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal gyda'r Athro Syr Ian Diamond ar 20 Hydref 2014.</p>		
<p>2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb</p>	<p>2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
3. Cyflwyniad gan Brifysgol De Cymru	3.1. Cafwyd cyflwyniad gan Heledd Bebb a Gwawr Jones, ar Gangen Prifysgol De Cymru. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniad a oedd yn arddangos rhai o'r dulliau a ddefnyddir i ddenu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i'r sefydliad a'r cynnydd yn y niferoedd.		
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2014	4.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
5. Materion Academaidd (BA/14/03/4a) (BA/14/03/4b)	5.1. <u>Targedau 2015/16</u> Cylchredwyd cylchlythyr y Coleg ar dargedau 2015/16. Cyflwynwyd ymateb y sefydliadau i'r targedau a awgrymwyd gan y Coleg gan y Cofrestrydd. Trafodwyd y ffaith nad yw cyfanswm y targedau a gytunwyd yn y cynlluniau ffioedd gan y sefydliadau yn cyrraedd y targed cenedlaethol. Gofynnwyd oni ddylai'r Coleg fod yn rhan o'r broses negodi targedau rhwng y sefydliadau a'r Cyngor Cyllido er mwyn osgoi'r fath anghysondebau? 5.2. <u>Cynnydd Cynllunio Academaidd</u> Derbyniwyd papur ar gynnydd cynllunio academaidd gan y Cofrestrydd a chafwyd trafodaeth ar yr argymhellion penodol a nodir ar gyfer y gwahanol bynciau. Eglurwyd bod y targedau'n isel mewn rhai pynciau ac eraill, o bosibl, yn rhy uchelgeisiol. Deallwyd bod sefydliadau hefyd yn amrywio yn y modd y maent yn casglu data ac argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd gynnal seminar i gofrestryddion i rannu arfer da ynghylch cofnodi data. Cytunodd y swyddogion i edrych yn fanylach ar y pynciau hynny lle gellir ennill tir ar fyrder (o ran niferoedd) ynghyd â'r rhai hynny sy'n ymddangos eu bod yn tangyflawni. Cytunodd aelodau'r Bwrdd Academaidd i gynnig profiad a chyngor i'r Paneli pwnc mewn meysydd twf fel yn briodol.	Argymhelliad i'r PCA	Medi 2015

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BA/14/03/4c)	<p>5.3 <u>Cofrestru myfyrwyr</u> Cyflwynwyd ymatebion sefydliadau i gylchlythyr y Coleg ynghylch trefniadau sefydliadau ar gyfer cofrestru myfyrwyr ar ddarpariaeth Gymraeg gan y Cofrestrydd. Nodwyd yr ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd gan y sefydliadau ac adroddwyd ar y camau sydd wedi eu cymryd eisoes gan brifysgolion Aberystwyth a Bangor. Darparodd Gwilym Dyfri Jones rywfaint o gyd-destun i ymateb Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Wedi trafodaeth fanwl cytunwyd mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod cynifer â phosibl o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cyflawni'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	Gofyn i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr parhau â'r drafodaeth	26 Tachwedd 2014
6. Cynlluniau pynciol (BA/14/03/5a)	<p>6.1. Cyflwynwyd diweddariad o'r cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd a'r rhai sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar y wefan.</p> <p>6.2. Cyflwynwyd cynlluniau ym meysydd Meddygaeth, Astudiaethau Iechyd a Gwyddorau Naturiol ac wedi trafodaeth cymeradwywyd y cynlluniau gydag un newid i dargedau maes Iechyd (Adroddiad Statws 1). Yn dilyn trafodaeth fanwl derbyniwyd y cynlluniau ym meysydd Cerddoriaeth, Astudiaethau Addysg a Phlentyndod ac Athroniaeth (Adroddiad Statws 2).</p> <p>6.3. Cyflwynwyd y cynlluniau Diwydiannau Creadigol, Cyfrifiadureg a Pheirianeg ac, yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i'w derbyn fel cynlluniau ar waith gan nodi'r angen i ddiwygio data (Adroddiad Statws 3).</p> <p>6.4. Argymhellwyd nodi codau JACS yn y cynlluniau.</p> <p>6.5. Nodwyd diolch i aelodau'r Bwrdd Academaidd, y Paneli Pwnc a swyddogion y Coleg am eu gwaith yn cydlynu a hwyluso'r cynlluniau.</p>	<p>Diweddaru'r ddogfen cynlluniau pynciol a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf</p> <p>Diwygio'r cynlluniau</p> <p>Nodi codau JACS yn y cynlluniau</p>	<p>4 Chwefror 2015</p> <p>4 Chwefror 2015</p> <p>O hyn ymlaen</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BA/14/03/5ch)	<p>6.6. <u>Adolygu Cynlluniau Pynciol</u> Ystyriwyd y fframwaith ac amserlen adolygu, a oedd wedi ei seilio ar drafodaeth y Bwrdd Academaidd ar 7 Mai 2014. Awgrymwyd ychwanegu Cadeirydd y canghennau yn y broses ynghyd â chynrychiolaeth myfyrwyr. Cymeradwywyd y cynllun (proses a model) a chytunwyd i adolygu pynciau Busnes a'r Gyfraith erbyn y cyfarfod nesaf. Nodwyd y byddai aelodau allanol cymwys yn cael eu penodi i'r panel adolygu. Nododd y Prif Weithredwr y byddai cyfle yn y cyfarfod nesaf – yn dilyn yr adolygiadau Busnes a Chyfraith – i ystyried y broses adolygu ac unrhyw newidiadau y dylid eu hystyried. Adroddwyd hefyd y byddai'r Coleg yn cynnal adolygiad penodol, o dan gadeiryddiaeth y Deon, o'r buddsoddiad presennol ym maes Ieithoedd Modern Ewropeaidd.</p>	Adolygu cynlluniau Busnes a'r Gyfraith	4 Chwefror 2015
7. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	<p>7.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar drafodaeth y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a gyfarfu ar 24 Medi 2014. Adroddwyd bod y Coleg wedi cyhoeddi cylchlythyr ymgynghorol yn cynnig cytundeb fframwaith i hwyluso cydweithio academaidd. Adroddwyd ymhellach bod y pwyllgor wedi trafod y cynllun astudiaethau rhan-amser, sydd yn cofrestru myfyrwyr erbyn hyn, ynghyd â'r datblygiadau mewn astudiaethau cyfieithu. Nodwyd mai'r aelod myfyrwyr ar y Pwyllgor Cydweithio Academaidd ar gyfer 2014/15 yw Rhys Taylor, Prifysgol Bangor.</p> <p>7.2. Nodwyd cofnodion 30 Ebrill 2014, er gwybodaeth. Awgrymwyd addasu cofnod 6.4 i fod yn llai amwys.</p>		
8. Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil	<p>8.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Staffio Academaidd a Chynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>8.2. <u>Cynllun Staffio</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddwyd bod dyfarniadau 2014/15 bellach bron i gyd wedi'u llenwi er bod un wedi disgyn (Troseddeg, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd) a dau heb gychwyn eto (Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Agored, a Nyrsio, Prifysgol Bangor), felly mae 17 o'r 20 swydd a ddyfarnwyd eisoes wedi cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Cynhaliwyd cyfarfod cynefino iddynt ar 9 Medi 2014 yng Nghaerfyrddin. • Adroddwyd bod cylchlythyr yn gwahodd ceisiadau ar gyfer dyfarniadau 2015/16 wedi'i anfon at y sefydliadau addysg uwch gyda'r dyddiad cau 21 Tachwedd 2014. Eglurwyd mai hwn fydd cylch dyfarnu olaf y Cynllun Staffio yn ei ffurf bresennol. • Adroddwyd y bydd swyddogion y Coleg yn cwrdd â'r sefydliadau addysg uwch yn y flwyddyn newydd i drafod cynlluniau'r prifysgolion ar gyfer parhau i gyllido swyddi a fydd yn dod i ben o fewn y ddwy flynedd nesaf. <p>8.3 <u>Ysgoloriaethau Ymchwil</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddwyd ar ddyfarniadau 2014/15 a bod naw o'r deg Ysgoloriaeth a ddyfarnwyd wedi cychwyn ar 1 Hydref 2014. Eglurwyd bod yr Ysgoloriaeth ym maes Cyfryngau a ddyfarnwyd i Dde Cymru wedi disgyn. Adroddwyd ymhellach bod y deiliaid newydd wedi bod i gyfarfod cynefino yng Nghaerfyrddin ar 12 Medi 2014, a nifer wedi mynychu cwrs Sgiliau Ymchwil a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan ar 12-13 Hydref 2014, y cwrs preswyl cyntaf o bedwar fydd yn cael eu cynnal eleni fel rhan o'r Rhaglen Sgiliau Ymchwil ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig. • Adroddwyd bod cylchlythyr yn gwahodd ceisiadau ar gyfer dyfarniadau 2015/16 wedi'i anfon at y sefydliadau 		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>addysg uwch gyda'r dyddiad cau 12 Ionawr 2015. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd Academaidd mai 18 mis o gyllido yn unig y gellid ei warantu ar hyn o bryd felly byddai'n rhaid i brifysgolion sy'n ymgeisio am Ysgoloriaethau Ymchwil wneud datganiad pendant a diamwys y byddent yn parhau i gyllido'r deiliaid pe na fyddai modd i'r Coleg wneud hynny.</p>		
<p>9. Cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg (BA/14/03/08)</p>	<p>9.1. Cafwyd adroddiad llafar gan Delyth Murphy Cadeirydd yr is-bwyllgor a gyfarfu ar 3 Hydref 2014.</p> <p>9.2. Argymhellwyd y dylid dyrchafu statws yr is-bwyllgor i bwyllgor llawn.</p> <p>9.3. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl sy'n arddangos blaenoriaethau strategol y Coleg a chynllun gweithredu'r pwyllgor.</p> <p>9.4. Nodwyd mai Lois Roberts, un o Swyddogion Datblygu'r Coleg a fyddai'n cynorthwyo â gwaith y pwyllgor.</p> <p>9.5. Argymhellwyd cynnwys cynrychiolydd myfyrwyr a oedd wedi dilyn cwrs mynediad i addysg uwch fel aelod o'r pwyllgor.</p> <p>9.6. Adroddodd Rhodri Organ, cynrychiolydd myfyrwyr y de-ddwyrain, am ei brofiad yn cynorthwyo â chwrs blasu <i>First Campus</i> i fyfyrwyr blwyddyn 9 a oedd yn gwneud iddynt feddwl am fynd i'r brifysgol.</p> <p>9.7. Nodwyd cylchlythyr y Cyngor Cyllido ar strategaethau ehangu mynediad rhanbarthol 2013/14 hyd 2015/16.</p> <p>9.8. Nodwyd bod partneriaeth y Canolbarth a'r Gogledd wedi gofyn i'r Coleg arwyddo cytundeb cydweithio ffurfiol; bod cydweithio â <i>First Campus</i> yn weithredol; a bod y De-orllewin yn gefnogol.</p>		
<p>10. Pynciau cysylltiedig ag Iechyd</p>	<p>10.1. Nodwyd y crynodeb o'r adroddiad ar yr adolygiad ar ran y Coleg gan Dr Elin Walker Jones.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BA/14/03/09)	10.2. Cytunwyd i ail-ddosbarthu'r crynodeb i aelodau'r Bwrdd Academaidd a gofyn am ymatebion a sylwadau cyn diwedd tymor yr hydref.	Ail-ddosbarthu'r crynodeb a gofyn am ymatebion	Tymor yr Hydref 2014
11. Astudiaethau Cyfieithu	11.1. Cafwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr ar ddarpariaeth genedlaethol Astudiaethau Cyfieithu. Nodwyd bod y prosiect, yn dilyn proses, wedi ei leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth a bod y gwaith o ddilysu'r ddarpariaeth genedlaethol yn mynd rhagddo. Bwriedir cofrestru myfyrwyr ar gyfer Medi 2015.		
12. Wicipedia	<p>12.1 Derbyniwyd adroddiad llafar ar waith y Cydlynnydd Wicipedia gan y Cofrestrydd. Eglurwyd yn ystod y swydd chwe mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2014 bod pedwar casgliad cychwynnol o ddeunyddiau wedi cael eu hail-drwyddedu a'u llwyfannu ar 'Esboniadur' y Coleg ar y Porth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. 'Daearyddiaeth' gyda 30 o dermau daearyddol (gyda thua 70 pellach ar ffurf drafft sydd dan ystriaeth tîm prosiect) 2. 'Ffilm a Theledu Cymru' gyda 72 o erthyglau a chlipiau fideo cefnogol am ffilmiau, rhaglenni teledu a chyfarwyddwyr o Gymru yn deillio o'r prosiect 'Yn y Ffrâm' 3. 'Theatr Cymru Gynnar' 4. 'Drama Radio' <p>Cafodd cofnodion, yr oedd modd eu trwyddedu ar sail Creative Commons 'CC BY SA', eu trosglwyddo i'r Wicipedia Cymraeg ar sail y drwydded newydd agored gyda dolen i'r cofnod gwreiddiol ar Y Porth.</p> <p>Mae'r Coleg eisoes wedi adrodd ar y cynnydd i gyllidwyr allanol y swydd, Wikimedia, a bydd adroddiad ysgrifenedig yn crynhoi allbwn y prosiect ac argymhellion</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	i'r Coleg o ran datblygiad pellach deunyddiau agored yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Academaidd maes o law.		
13. Tystysgrif Sgiliau Iaith (BA/14/03/12)	<p>13.1. Trafodwyd y papur ar y Dystysgrif Sgiliau Iaith a chymeradwywyd yr argymhellion.</p> <p>13.2. Adroddwyd ymhellach bod adran yn y Gwerthusiad yn argymhell cynnal adolygiad o'r Dystysgrif Sgiliau Iaith. Bydd y Coleg yn gweithredu ar hyn ac yn archwilio'r opsiynau ymarferol ar gyfer dilysu neu achredu'r Dystysgrif fel cymhwyster cydnabyddedig.</p>		
14. Materion yn codi	<p>14.1. <u>Eitem 7 – Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</u> Adroddodd y Prif Weithredwr bod y gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio Tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Athrawon a fyddai yn cadarnhau eu bod yn medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd datblygu'r Dystysgrif newydd hon yn dasg a nodwyd yn Llythyr Gorchwyl y Llywodraeth i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a gofynnwyd i'r Coleg fwrw ymlaen â'r gwaith. Mae Dr Gwyn Lewis yn gweithredu fel ymgynghorydd arbenigol ar gyfer y prosiect a rhagwelir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn academaidd.</p> <p>14.2. <u>Eitem 12 – Prosiectau peilot rhwng y Coleg a sefydliadau addysg bellach</u> Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr yn cadarnhau bod y prosiectau ar waith ac y byddai'r canlyniadau yn cael eu hadolygu maes o law. Yn y cyfamser, adroddwyd bod y Coleg a Cholegau Cymru wedi ymrwmo i gydweithio'n fwy effeithiol ac yn sefydlu grŵp strategol i gryfhau'r cyd-gynllunio rhwng y ddwy sector.</p>		
15. UFA	15.1. Cafwyd adroddiad llafar ar weithgareddau'r myfyrwyr gan Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC. Nodwyd y		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Swyddogion Iaith yn ehangu • Siarter Iaith Gymraeg wedi'i dderbyn yn Aberystwyth ac Abertawe, gyda Chaerdydd yn dilyn • Cymdeithas newydd ym Mhrifysgol De Cymru • Rali flynyddol y myfyrwyr ar 6 Tachwedd 2014 • Cronfa caledi wedi'i arbed am eleni ond bod perygl y gallai ddiflannu yn y dyfodol <p>Codwyd mater penodiad Cyfarwyddwr i gynrychioli myfyrwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg. Eglurwyd mai'r drefn bresennol yw bod enwebiad yn cael ei dderbyn gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ac mai mater i'r corff myfyrwyr yw'r broses o gyflwyno enwebiad. Yn dilyn cyfweiliad gan Bwyllgor Penodiadau'r Coleg, argymhellwyd penodi Beth Button yn aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> <p>15.2. Nodwyd y trefnwyd Darlith Edward Lhuyd a'r Gymdeithas Ddysgedig ar 12 Tachwedd 2014. Yr Athro Siwan Davies, Prifysgol Abertawe, fydd yn traddodi ar 'Newid hinsawdd sydyn: datgelu cyfrinachau'r gorffennol'.</p> <p>15.3. Nodwyd ymhellach bod yr Athro Derec Llwyd Morgan wedi cytuno i draddodi darlith flynyddol y Coleg yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2015.</p> <p>15.4. Cyflwynodd y Deon amserlen cyfarfodydd ac ymweliadau i'r canghennau, er gwybodaeth.</p>	Trafod yn y pwyllgor ehangu mynediad	Cyfarfod nesaf
<p>16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin • 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr • 14 Hydref 2015, Bangor • 3 Chwefror 2016, Caerfyrddin • 11 Mai 2016, Prifysgol Caerdydd 		

